

Dylid rhoi meddyginiaethau yn ôl y presgripsiwn ac yn amserol. Gall pobl sy'n dioddef o ddiabetes ddatblygu sgil-ffeithiau neu ddatblygu anoddefgarwch i feddyginiaethau ar unrhyw bryd, nid yn unig ar ôl dechrau'r therapïau. Os oes gennych unrhyw bryderon, siaradwch â'ch meddyg teulu neu'ch arbenigwr gofal iechyd arferol.

- Dylid gwneud adolygiad rheolaidd o feddyginiaeth yn achos oedolion hŷn sy'n dioddef o ddiabetes ac sy'n eiddil³³

- Os yw oedolion sy'n dioddef o ddiabetes yn eich gofal chi wedi colli eu chwant bwyd; yn colli pwysau; yn cael trafferthion bwyta a/neu lyncu neu wedi colli eu gallu i fwydo eu hunain; neu wedi dod yn eiddil neu mae eu heiddilwch yn gwaethygu, yna maent mewn mwy o risg o hypoglycemia. Dylid eu hadolygu'n gyflym
- Gall meddyginiaethau megis atalyddion SGLT-2 a thiasolidinediones (pioglitason) arwain at sgil-ffeithiau sy'n cynnwys colli pwysau, dadhydradu,

a phosiblirwydd o golli bodiau traed (atalyddion SGLT-2)³⁴, yn ogystal â'r risg o fethiant y galon, torri esgyrn, a chansr y bledren³⁵

- Gall ysgogwyr GLP-1 achosi rhywun i golli pwysau ac arwain at anorexia
- Os ydych yn bryderus am unrhyw un o'r materion hyn, cysylltwch â'r meddyg teulu neu'r darparwr gofal iechyd i'w hadolygu.

INSWLIN SY'N PARA AM GYFNOD HIR IAWN (SYLFAENOL)	INSWLIN SY'N PARA AM GYFNOD HIR (SYLFAENOL)	INSWLIN SY'N GWEITHIO'N SYDYN (BOLWS)	INSWLIN CYDWEDD CYMYSG MEWN DAU GAM	INSWLIN DROS DRO	INSWLIN CYFNOD BYR	INSWLIN DYNOL CYMYSG MEWN DAU GAM
TOUJEO TRESIBA	LANTUS ABASAGLAR LEVEMIR SEMGLLEE	NOVORAPID HUMALOG APIDRA FIASP LYUMJEV INSULIN LISPRO TRURAPI ADMELOG	NOVOMIX 30 HUMALOG MIX 25 HUMALOG MIX 50	INSULATARD HUMULIN I INSUMAN BASAL	HUMULIN S INSUMAN RAPID ACTRAPID (DEFYNYDD YSBYTY YN UNIG)	HUMULIN M3 INSUMAN COMB 50
Unwaith bob diwrnod, gellir ei rhoi ar unrhyw adeg. Ni fydd ystod yswiriant inswlin (gan Sanofi) ar gael mwyach (o fis Mehefin 2023). Oes oes angen rhagor o gyngor amoch, cysylltwch â'ch darparwr gofal iechyd.	Lantus/abasaglar – unwaith neu ddwywaith (yn rhai achosion) bob diwrnod, i'w rhoi ar yr un adeg/au bob diwrnod. Levemir – unwaith neu ddwywaith bob diwrnod, yn y bore a/neu gyda'r nos ar adeg gyffelyb.	Unwaith/dwywaith neu deirgwaith bob diwrnod gyda phrydau bwyd, a'i rhoi oddeutu 15 munud cyn prydau bwyd.	Dwywaith bob diwrnod- 15 munud cyn brechwast a phryd gyda'r nos, weithiau gellir ei rhoi amser cinio hefyd. (Inswlin cymylog –angen ei gymysgu eto drwy rolïo'r ddyfais, a'i throï â'i phen i waered 10 gwaith cyn rhoi'r pigiad).	Unwaith neu ddwywaith bob diwrnod – yn y bore a/neu gyda'r nos. (Inswlin cymylog –angen ei gymysgu eto drwy rolïo'r ddyfais, a'i throï â'i phen i waered 10 gwaith cyn rhoi'r pigiad).	Unwaith/dwywaith neu deirgwaith bob diwrnod gyda phrydau bwyd, a'i rhoi oddeutu 30 munud cyn prydau bwyd.	Fel arfer dwywaith bob diwrnod – 30 munud cyn brechwast a phryd bwyd gyda'r nos, weithiau gellir ei rhoi amser cinio hefyd. (Inswlin cymylog –angen ei gymysgu eto drwy rolïo'r ddyfais, a'i throï â'i phen i waered 10 gwaith cyn rhoi'r pigiad).

³³ Sinclair A (2019) Key learning points: diabetes in older people with frailty accessed from: Key learning points: diabetes in older people with frailty | Key learning points | Guidelines in Practice 29/09/2021.

³⁴ NICE. Type 2 diabetes in adults: management. Evidence reviews for SGLT-2 inhibitors and GLP-1 mimetics. NICE Guideline 28. NICE, 2018. Ar gael yn: www.nice.org.uk/guidance/ng28/evidence/sglt2-inhibitors-and-glp1-mimetics-pdf-10958149117

³⁵ Turner R, Kwok C, Chen-Turner C et al. Thiazolidinediones and associated risk of bladder cancer: a systematic review and meta-analysis. Br J Clin Pharmacol 2014; 78 (2): 258–273